

CYNGOR CYMUNED LLANDYBÏE
LLANDYBIE COMMUNITY COUNCIL

Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1974
- Polisi Iechyd a Diogelwch

Health & Safety at Work Act 1974 – Health and Safety Policy

Datganiad o Fwriad

Mae CYNGOR CYMUNED LLANDYBÏE (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel y Cyngor) yn cydnabod ei ddyletswyddau yn unol â'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle am ofalu cyn belled ag y bydd hynny yn rhesymol ymarferol am iechyd, diogelwch a lles ei weithwyr.

Mae'r Cyngor yn rhoi'r pwys mwyaf ar iechyd a diogelwch ac yn ei hystyried yn gyfrifoldeb rheoli sydd gyfwrch â swyddogaethau rheoli eraill y Cyngor.

Polisi'r Cyngor yw cymryd pob cam rhesymol ymarferol i rwystro damweiniau, digwyddiadau peryglus, ac anwylderau galwedigaethol ac i greu amodau gwaith a fydd yn amddiffyn iechyd a diogelwch ei weithwyr. I'r perwyl hwn, bydd y Cyngor yn dyrannu, hyd y gall, yr adnoddau angenrheidiol ac yn annog cefnogaeth ei weithwyr, y mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1974 yn rhoi iddynt hwythau ddyletswyddau.

Bydd y Cyngor yn gofalu, hyd y mae'n rhesymol ymarferol, nad yw ei weithgareddau neu gyflwr ei adeiladau neu'r cyfleusterau dan ei reolaeth yn effeithio yn andwyol ar iechyd a diogelwch defnyddwyr ei gyfleusterau ac aelodau o'r cyhoedd.

Bydd y Cyngor yn rhoi i'w weithwyr hyfforddiant digonol er mwyn iddynt allu gwneud eu dyletswyddau yn ddiogel.

Bydd y Cyngor yn cydymffurfio â phob darpariaeth statudol ond yn ystyried y safonau a bennir gan y darpariaethau statudol perthnasol y safonau derbynol isaf posibl y mae'n rhaid eu cyrraedd a bydd yn ymdrechu i wella ar y safonau hynny lle bo'n rhesymol ymarferol.

Caiff y polisi hwn, gan gynnwys y drefn a'r trefniadau ar gyfer iechyd a diogelwch sy'n rhan ohono, ei adolygu yn rheolaidd a'i addasu a'i ddiweddarau fel y bo angen.

Trefniadaeth

1. Cyfrifoldeb y Cyngor yw gofalu bod y polisi hwn yn cael ei weithredu yn llawn a'i fod yn cydymffurfio â phob offeryn statudol sy'n ymwneud â iechyd a diogelwch.
2. Clerc y Cyngor Cymuned sydd yn gyfrifol am weithredu'r trefniadau a'r rheolau diogelwch arferol yn effeithiol ac am ofalu bod hyfforddiant digonol yn cael ei drefnu.

3. Gosodir dyletswyddau ar y Clerc a'r Swyddog Technegol yn unol â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1974 a deddfwriaeth ategol. Y prif ddyletswyddau yw:
- (a) cymryd cyfrifoldeb rhesymol am eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac eiddo eraill y gall yr hyn a wnânt neu a fethant ei wneud yn y gwaith effeithio arnynt
 - (b) cydweithredu gydag unrhyw fesurau a gymerir i ddiogelu iechyd a diogelwch yn y gweithle
 - (c) hysbysu'r Cyngor yn ddioed am unrhyw sefyllfa yn y gweithle a all arwain at berygl difrifol neu berygl a all ddiogwydd ar fyrder
 - (ch) hysbysu'r Cyngor am unrhyw ddiffygion o ran trefniadau iechyd a diogelwch fel y gellir cymryd camau i'w hadfer os oes angen

Dylid nodi y gellir cymryd camau disgyblu yn erbyn unrhyw weithiwr sy'n torri deddfau diogelwch a rheolau diogelwch y Cyngor.

Trefniadau

Asesu risgiau

Bydd y Cyngor yn ymrwymo i asesiadau risgiau a gyfyd yn sgil peryglon yn y gweithle. Dilynr hyn gan asesiad o'r risgiau a gyfyd o waith a thasgau y mae rheoliadau penodol yn ymwneud â hwy (Rheoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Peryglu Iechyd 2000, Rheoliadau Cyfarpar Sgriniau Arddangos). Caiff y risgiau a gyfyd yn sgil peryglon a nodir eu rheoli a'u lleihau cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol. Caiff yr asesiadau eu hadolygu pryd bynnag y bydd newid yn y tasgau ac mewn cyfnodau rhesymol er mwyn gofalu eu bod yn dal yn ddilys.

Cofnodi damweiniau

Rhaid rhoi gwybod i'r Clerc gynted ag y gellir am unrhyw ddamwain neu digwyddiad sydd bron yn ddamwain. Dylid cofnodi manylion yn y llyfr anafiadau. Mae hyn yn cynnwys manylion am ddamweiniau i ddefnyddwyr ac aelodau o'r cyhoedd yn adeilad y Cyngor lle rhoddir gwybodaeth i staff y Cyngor.

Clerc y Cyngor Cymuned fydd yn gyfrifol am roi gwybod am y damweiniau hyn i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch fel y disgwylir yn ol Rheoliadau Hysbysu am Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 1995.

Ymchwilio i ddamweiniau

Rhaid ymchwilio i bob damwain er mwyn canfod yr achosion. Rhoddir cyfarwyddiadau rheoli yn eu lle, hyd y mae'n ymarferol, er mwyn rhwystro'r un

peth rhag digwydd eto. Yn dilyn unrhyw ddamwain, bydd rhaid adolygu'r asesiad risg ar gyfer y dasg berthnasol.

Cyflwr yr Adeilad

Bydd rhywun cymwys yn archwilio adeilad y Cyngor a'i eiddo yn rheolaidd i ganfod a oes angen eu trwsio er mwyn gofalu bod yr adeilad yn ddiogel ar gyfer y gweithwyr, defnyddwyr ac aelodau eraill o'r cyhoedd.

Gwneir gwaith trwsio yn ôl blaenoriaeth.

Bydd aelodau yn rhoi gwybod i Glerc y Cyngor Cymuned am unrhyw beryglon i ddiogelwch sy'n dod i'w sylw sy'n deillio o gyflwr adeiladau'r Cyngor neu dir dan ei reolaeth.

Atal Tân

Caiff swyddfeydd y Cyngor eu harchwilio yn gyson gan swyddogion atal tân o'r Gwasanaeth Tân. Bydd unrhyw ofynion a bennir gan y swyddogion atal tân er mwyn rhwystro tân yn cael eu gweithredu.

- Caiff cyfarpar ymladd tân ei archwilio yn gyson a rhoddir gwasanaeth iddo pan fo hynny yn briodol.
- Cedwir allanfeydd tân yn glir a gwneir yn siwr y gellir agor allanfeydd tân yn hawdd o'r tu mewn i'r adeilad.
- Rhoddir cyfarwyddiadau i'r staff beth i'w wneud os byddant yn canfod tân ac phan glywant y larwm tân.
- Ni chaiff llawer iawn o ddeunyddiau hylosg eu storio.
- Ni chaniateir ysmegu yn adeilad y Cyngor.

Gofalu am yr adeilad

Rhaid cadw cyfleusterau'r Cyngor gan gynnwys mynedfeydd i'r adeilad yn rhesymol lân a thaclus bob amser er mwyn lleihau'r perygl o lithro, baglu neu syrthio. Rhaid cadw llwybrau a mynedfeydd yn glir er mwyn gallu mynd i mewn i'r adeilad ac allan ohono yn ddiogel.

Cyfarpar Gwaith

Bydd y Cyngor yn gofalu, hyd y mae'n rhesymol ymarferol, fod pob un sy'n defnyddio ei gyfarpar gwaith yn gymwys ac wedi ei hyfforddi i ddefnyddio'r cyfarpar mewn modd diogel. Bydd y Cyngor yn cadw'r holl gyfarpar gwaith a ddefnyddir gan ei weithwyr mewn cyflwr da a diogel. Os yw offer yn ddiffygiol, cymerir camau priodol i'w drwsio yn ôl y galw neu'n rhoi gwybod am namau mewn cyfarpar a logwyd i'r rhai a'i llogodd.

Gweithio Gartref

Lle disgwylir i weithwyr y Cyngor weithio yn eu cartefi eu hunain, bydd y Cyngor:

- yn asesu'r risgiau a ddaw yn sgil unrhyw berygl
- yn gofalu bod unrhyw gyfarpar gwaith a ddarperir gan y Cyngor yn ddiogel
- yn gofalu bod unrhyw weithfannau offer sgriniau arddangos yn cael eu hasesu.

Trafod cyfarpar

Er mwyn osgoi anafiadau yn sgil trafod cyfarpar (e.e. cario offer trwm), nod y Cyngor fydd osgoi trafod pryd bynnag y gellir yn rhesymol wneud hynny.

Trydan yn y Gweithle

Bydd y Cyngor yn gofalu bod unrhyw osodiadau a chyfarpar trydan yn cael eu cadw yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw yn rheolaidd. Caiff gosodiadau a chyfarpar trydan sefydlog eu harchwilio yn gyson gan drydanwyr cymwys a gwneir unrhyw waith y credir ei fod yn angenrheidiol er diogelwch yn ddioed. Rhoddir profion i offer trydan cludadwy gan unigolion cymwys. Bydd y sawl sy'n defnyddio offer cludadwy yn ei archwilio cyfarpar yn arwynebol cyn ei ddefnyddio ac yn rhoi gwybod am unrhyw ddiffygion ar unwaith.

Cymorth Cyntaf

Bydd y Cyngor yn asesu'r angen am ddarparu offer cymorth cyntaf gan ddarparu'r cyfryw gyfarpar yn ei swyddfeydd a chynnig hyfforddiant yn ôl y galw.

Sylweddau Peryglus

Nid yw'r Cyngor yn meddu unrhyw sylweddau o'r math hwn.

Yr Amgylchedd

Bydd y Cyngor yn gofalu bod pob deunydd a sylwedd yn cael ei ddefnyddio a'i waredu unol â Deddf Diogelu'r Amgylchedd.

Cyfarpar sgrin arddangos

Mae'r Clerc a'r Swyddog Technegol yn 'ddefnyddwyr' offer sgriniau arddangos fel y ddifiniwyd gan Reoliadau Iechyd a Diogelwch (Cyfarpar Sgriniau Arddangos) 1992. Cynhelir asesiaau risg i asesu risg anhwylderau aelod yn rhan uchaf y corff o ganlyniad i'r gwaith ac anhwylderau eraill sy'n gysylltiedig â defnyddio cyfrifiaduron. Bydd y Cyngor yn gofalu bod pob offer yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth.

Defnydd o'r adeilad gan eraill

Bydd y Cyngor yn gofalu, i'r graddau y mae hynny yn rhesymol ymarferol, fod ei adeilad, ei eiddo, ei ffitiadau ac unrhyw gyfarpar a ddarperir ganddo yn ddiogel ac yn ddi berygl. Bydd defnyddwyr yn gyfrifol am gynnal eu gweithgareddau mewn modd diogel. Rhaid rhoi gwybod am unrhyw ddifrod i adeilad neu eiddo y Cyngor yn ddioed.

Monitro'r trefniadau diogelwch

Bydd y Cyngor yn cynnal gwiriadau rheolaidd i ofalu bod unrhyw drefniadau diogeledd a sefydlwyd yn parhau i gael eu gweithredu ac yn dal i fod yn effeithiol.

Adolygwyd gan y Pwyllgor Polisi ar y 1af Chwefror, 2017 a chadarnhawyd gan y Cyngor llawn ar y 22ain Chwefror, 2017.

Llofnodwyd _____ Cadeirydd

Llofnodwyd _____ Clerc